Atodiad 6: Datganiad Preifatrwydd GCRhA

Atodlen 1: Diogelu Data

Mae'r atodlen hon yn disgrifio sut y mae AU Ymlaen yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi a'ch tîm pan fyddwch yn anfon eich enwebiad atom. At ddiben deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018, AU Ymlaen yw'r "rheolydd data". Mae hyn yn golygu ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn dal ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n ofynnol i ni o dan ddeddfwriaeth diogelu data i roi gwybod i chi pa wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr atodlen hon.

Mae AU Ymlaen yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi ei gorffori yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif cwmni 4931031 a'i gofrestru fel elusen yn Lloegr o dan y rhif elusen 1101607 ac yn yr Alban o dan y rhif elusen SC043946. Ein cyfeiriad swyddfa gofrestredig yw: Innovation Way, York Science Park, Caerefrog YO10 5BR. Gallwch gysylltu â ni hefyd trwy'r ebost yn data.protection@advance-he.ac.uk neu drwy ffonio 01904 717500.

Sut y byddwn yn diogelu eich gwybodaeth bersonol

Mae AU Ymlaen wedi ymrwymo i ddal yr wybodaeth bersonol a rowch i ni yn ddiogel.

Os yw gwybodaeth bersonol yn cael ei dal yn electronig, caiff ei dal ar system gyfrifiadurol a berchenogir ac a reolir gan AU Ymlaen neu drydydd parti a benodir gan AU Ymlaen.

Er mwyn gallu gweinyddu'r cynllun yn effeithiol, mae AU Ymlaen yn storio'r manylion a roddir ar y ffurflen hon, a'r dogfennau enwebu, ar bapur ac mewn fformat electronig. Caiff copïau papur eu cadw'n lleol gan AU Ymlaen yn ei swyddfeydd neu'n ddiogel gan ein staff, contractwyr neu mewn cyfleusterau storio oddi ar y safle. Weithiau byddwn yn gwneud copïau electronig o ddogfennau papur neu'n teipio gwybodaeth o'r copïau hyn. Yna caiff y dogfennau neu'r wybodaeth eu storio ar ein system gyfrifiadurol.

Gweinyddir proses enwebu trwy system Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen. Caiff yr holl wybodaeth a rowch i ni ei throsglwyddo a'i storio ar ein gweinyddwyr diogel neu weinyddwyr trydydd parti arall y gallwn ei benodi o bryd i'w gilydd i letya'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir a/neu storio gwybodaeth.

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bo angen yn unig i ddiwallu'r dibenion y cafodd ei chasglu ar eu cyfer (gweler "Ar gyfer beth ydym yn defnyddio eich gwybodaeth" isod)

Enillwyr llwyddiannus GCRhA: Bydd AU Ymlaen yn storio ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol dros y cyfnod pan fyddwch yn Gymrawd Addysgu Cenedlaethol.

Er mwyn penderfynu ar y cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg posibl o niwed trwy'r defnydd diawdurdod neu ddatgelu eich data personol, y dibenion rydym yn prosesu eich data personol ar eu cyfer ac a allwn gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol cymwys. Bydd AU Ymlaen yn sicrhau bod ein cyflenwyr a thrydydd partïon o ddewis y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw yn unol â'r atodlen hon, yn dileu eich gwybodaeth bersonol pan na fydd rheswm dros ei chadw mwyach.

Ar gyfer beth ydym yn defnyddio'r wybodaeth sydd yn y ffurflen hon:

Mae'r sefyllfaoedd pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol wedi eu rhestru isod:

- Cyfathrebu â chi am eich enwebiad.
- Dibenion gweinyddol gan gynnwys sefydlu, diwygio, cau neu adnewyddu cyfrifon defnyddwyr ar gyfer yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir.
- Gwerthuso a dadansoddi'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ffurflenni.
- Delio ag unrhyw ymholiadau neu gwynion mewn perthynas â'ch cais ar gyfer y Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol.
- Llunio adroddiadau ar gyfer defnydd mewnol gennym ni, ein staff a Phanel Ymgynghorol Gwobrwyon Rhagoriaeth Addysgu y DU.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer y gweithgareddau hyn yw'r rheidrwydd i gyflawni ein contract gyda chi (oherwydd ymrwymwn i adolygu a phrosesu eich enwebiad).

- Penodi darparwyr gwasanaeth trydydd parti i ddefnyddio eich data personol at ein dibenion (nid dibenion y trydydd parti) ar ein rhan o dan ein cyfarwyddyd megis gwasanaethau cymorth ar gyfer defnyddio'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir, i adolygwyr cyfoedion allanol yn ogystal ag aelodau o'r panel fel rhan o'r broses asesu, i drydydd partïon sy'n cynorthwyo AU Ymlaen i lywio prosesau adolygu a gweithgareddau gwerthuso yn y dyfodol.
- Cadw mewn cysylltiad â chi i anfon manylion atoch am wybodaeth gwasanaeth, ein cynhyrchion a gwasanaethau, arolygon, cylchlythyron, digwyddiadau, cyrsiau, seminarau a gweithdai.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer y gweithgareddau hyn yw cyflawni ein buddion cyfreithlon i ymgysylltu â chymorth allanol i gyflenwi'r Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol a chodi ein proffil o fewn y gymuned addysgu.

- Lle yr hoffem ddefnyddio data at ddibenion eraill, gallwn wneud eich gwybodaeth yn ddienw er mwyn iddi beidio â chael ei chysylltu â chi. Yn yr achos hwnnw, bydd yn peidio â bod yn ddata personol a gallwn ddefnyddio'r data dienw ar gyfer unrhyw ddiben.

Rhannu eich gwybodaeth

Gallwn drosglwyddo eich gwybodaeth i'r trydydd partïon canlynol a/neu dimau mewnol neu adrannau AU Ymlaen ac ar gyfer y dibenion canlynol:

- Eich cyflogwr at ddiben rhwydweithio a datblygiad proffesiynol.
- Ein cyflenwyr sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan megis darparwyr TG sy'n berchen ar, yn rheoli neu'n darparu cymorth ar gyfer ein cyfrifiaduron neu systemau a ddefnyddiwn a'n cyflenwyr sy'n darparu'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir neu feddalwedd arall.
- Ein staff neu unigolion a benodwn i adolygu eich enwebiad a gwybodaeth arall a rowch yn eich dogfennaeth enwebu. Sefydliadau partner y gallwn eu defnyddio i gyflenwi'r Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol a'r seremoni wobrwyo.
- Sefydliadau partner y gallwn eu defnyddio i gyflenwi'r Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol a'r seremoni wobrwyo.

Weithiau gall fod rhwymedigaeth arnom i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol o dan y gyfraith megis gan reoleiddiwr sydd â'r pŵer priodol, neu orchymyn llys. Yn ogystal, gall gwybodaeth a gedwir gan neu ar gyfer cyrff cyhoeddus fod yn destun ceisiadau rhyddid gwybodaeth.

Eich dyletswydd i roi gwybod i ni am newidiadau:

Mae'n bwysig bod yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os yw'ch gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas weithio â ni.

Eich hawliau mewn perthynas â gwybodaeth bersonol:

O dan rai amgylchiadau, o dan y gyfraith mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- Gwneud cais i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (a elwir yn gyffredin yn "gais mynediad pwnc data"). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- Cais i gywiro'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i gael unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch wedi ei chywiro.
- Cais i ddileu eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu symud ymaith wybodaeth bersonol pan nad oes unrhyw reswm i ni barhau i'w phrosesu. Mae gennych yr hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu symud ymaith eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod).
- Gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol os ydym yn dibynnu ar fudd cyfreithlon (neu fudd trydydd parti) ac mae rhywbeth am eich sefyllfa arbennig chi sy'n golygu eich bod am wrthwynebu prosesu ar y sail hon.
- Cais i gyfyngu prosesu eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ohirio prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, er enghraifft, os ydych am i ni sefydlu ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- Cais i drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os ydych am adolygu, dilysu, cywiro neu wneud cais i ddileu eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu eich data personol, neu wneud cais i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â'r Tîm Gwobrwyon Rhagoriaeth Addysgu trwy lythyr.

Dim ffi yn ofynnol fel arfer

Ni fydd rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (neu arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, gallwn godi ffi resymol os yw'ch cais i gael mynediad yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Fel arall, gallwn wrthod cydymffurfio â'r cais mewn amgylchiadau o'r fath.

Beth allai fod ei angen arnom gennych chi

Efallai y bydd angen i ni wneud cais am wybodaeth benodol gennych chi i'n helpu i gadarnhau eich hunaniaeth a sicrhau eich hawl i gael mynediad i'r wybodaeth (neu arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau nad yw'r wybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw un sydd heb unrhyw hawl i'w chael.

Mae hawl gennych gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth (http://www.ico.gov.uk/) os oes unrhyw bryderon gennych mewn perthynas â'r modd y mae AU Ymlaen wedi trin eich gwybodaeth bersonol.